Ysgol Craig yr Wylfa

Hyrwyddo ymddygiad a chynnal safonau da

Ymddygiad Da	Good conduct
Gwobrwyo Plant	Rewarding children
Dim bwlio	No bullying
Presenoldeb Plant	Children's attendance

Good Conduct and Maintaining Good Standards

1 Amcanion

Rydym eisiau i Ysgol Craig yr Wylfa i fod yn ysgol hapus a diogel, lle y caiff pawb gyfle i weithio a chwarae gyda'i gilydd. Rydym yn disgwyl i bawb fod yn garedig, clên a gonest bob amser gan ddangos parch atynt eu hunain ac at bawb a phopeth arall.

Cewch wybodaeth yn y pamffledyn hwn am yr hyn a wneir i annog ein plant i ymddwyn yn well ac i roi o'i gorau, gan bwysleisio y bartneriaeth sydd ei hangen rhwng yr ysgol, y cartref a'r plentyn. Dywed hefyd pa gamau a gymerir os yw ein plant yn camymddwyn.

2 Gwerthoedd yr ysgol

Mae gwerthoedd yr ysgol yn cynnwys:

- dweud y gwir
- cadw addewidion
- parchu eraill
- ymddwyn yn ystyriol at eraill
- helpu rhai llai ffodus na ni'n hunain
- cymeryd cyfrifoldeb am ein gweithredoedd
- hunain ddisgyblaeth

Fel ysgol gwrthwynebwn:

- bwlio
- twyllo
- dichell (deceit)
- creulondeb
- ymddygiad anghyfrifol
- anonestrwydd

Gweithio gyda'n gilydd.
Llwyddiant ymddygiad da yw bod pawb yn cydweithio er lles y plentyn.

Golyga hyn:

- bod yn onest; agored a theg gyda'n gilydd
- gwrando ar ein gilydd
- gweithio gyda'n gilydd i ddatrys problemau

Trwy gyd-weithio gobeithiwn y bydd eich plentyn yn cael cyfnod hapus a llwyddiannus yn Ysgol Craig yr Wylfa.

3 Gwobrwyo Plant

Rhagarweiniad

Y mae ein polisi 'gwobrwyo plant' yn Ysgol Craig yr Wylfa yn anelu i wneud yr ysgol yn gymdeithas gyfeillgar ble y gall pob plentyn wneud ei orau a bod yr ymdrechion hynny yn cael eu cydnabod a'u parchu. Mae ennill gwobr yn ychwanegu at deimlad o hunain barch o fewn y plentyn sydd yn ei dro yn cyfrannu at ei ddatblygiad emosiynol, cymdeithasol ac addysgol.

Rydym yn awyddus i sicrhau fod ein hysgol yn parhau i fod yn ysgol ble mae'r plant yn hapus ac yn barod i ddangos eu hedmygedd o blant eraill.

Amcanion

- i gynorthwyo'r plentyn i werthfawrogi ymdrech dda
- i ddangos bod ymdrech dda yn cael ei pharchu gan yr athrawon a phawb sy'n gysylltiedig â hwy o ddydd i ddydd
- trwy gydnabod ymdrech, gobeithiwn ddarparu awyrgylch o hapusrwydd a bodlonrwydd ar gyfer y dysgu a'r addysgu
- i ddarparu amgylchedd ofalus a chyfeillgar ar gyfer y plant
- i ddangos bod cysondeb yn rhinwedd o bwys wrth barchu ymdrechion

Dull o weithredu

Fel y gall y plant deimlo'n falch ohonynt eu hunain a'u hysgol, byddwn yn gwobrwyo hymdrechion sy'n well na'r disgwyl. Yn y dosbarth defnyddir canmoliaeth, lafar, sticeri, siart wobrwyo. Bydd y plentyn yn cael ei ganmol mor aml a sy'n briodol.

Trwy'r ysgol defnyddir:

- unwaith y mis, ar derfyn gwasanaeth boreol yr ysgol gyfan bydd yr athrawon dosbarth yn dewis un plentyn o bob blwyddyn i'w canmol am ymdrechion da – yn unol â gallu'r plentyn, ei barodrwydd i helpu eraill ac ymddygiad gwell na'r disgwyl
- cyflwynir tystysgrif am yr ymdrech a bydd yn ei dro yn ennill marciau i'w dim.
- pan deimla'r athro/awes fod y plentyn wedi ymdrechu'n dda, caiff ganmoliaeth ac anogaeth bersonol gan eu h'athro/hathrawes, caiff gyfle i ddangos ei waith i weddill yr ysgol, heb anghofio galw i weld y Pennaeth. Bydd y plentyn yn cael tystysgrif arbennig er gwerthfawrogiad- "Neges neis"
- cyflwynir tystysgrif i bob plentyn sydd wedi llwyddo i fod yn bresennol yn yr ysgol trwy'r flwyddyn

4 Cyfrifoldeb y disgyblion

Disgwylir i'r disgyblion ddilyn y côd moesol yn eu dosbarthiadau ac yn yr ysgol yn gyffredinol

Côd Moesol yr Ysgol:

Disgwylir i bawb yn Ysgol Craig yr Wylfa i ymddwyn yn dda

Byddwch yn gwrtais

- gan alw pawb yn ôl ei enw
- gwrandewch a dilynwch gyfarwyddiadau
- edrych ar yr athro/awes pan fydd o/hi yn siarad hefo chi
- arhoswch eich tro i siarad, peidiwch â siarad ar draws

Byddwch yn garedig

- peidiwch â thaflu eich pwysau o gwmpas
- cadwch eich traed, dwylo ac eiddo personol i chi eich hunain
- peidiwch â bwlio a difetha gemau eraill

Byddwch yn ofalus

- edrychwch ar ôl eich h'eiddo eich hun, eiddo plant eraill, ac eiddo'r ysgol
- edrychwch ar ôl yr ysgol gan ei chadw yn lan ac yn daclus

Byddwch yn gall

- cerddwch yn dawel a chall o gwmpas yr adeilad
- cadwch yn glir o unrhyw drwbl a dywedwch wrth oedolyn am unrhyw beth sy'n eich poeni

Byddwch o ddifrif

- drwy fod yn brydlon bob amser
- gwisgwch eich gwisg ysgol yn gyson
- gwnewch eich gorau bob amser

5 Cyfrifoldebau y rhieni

Mae gan y rhieni rôl allweddol i sicrhau fod eu plentyn yn hapus a llwyddiannus yn yr ysgol.

Golyga hyn:

- gefnogi cod ymddygiad yr ysgol a'r polisi disgyblaeth
- rhannu pryderon ynglŷn ag addysg ymddygiad a lles eich plentyn gyda'r Pennaeth/athrawon
- dangos diddordeb byw yn natblygiad a gwaith eich plentyn
- bod yn barod i'w cynorthwyo
- mynychu cyfarfodydd rhieni a gweithgareddau yn ymwneud â'r ysgol
- rhoi gwybodaeth i'r ysgol os bydd eich plentyn yn absennol oherwydd gwaeledd, apwyntiad, gwyliau neu unrhyw reswm arall
- sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol yn brydlon
- os yw'n bosibl defnyddio'r wisg ysgol swyddogol – neu sicrhau gwisg debyg
- gefnogi eich plentyn gyda'i gwaith cartref

6 Atal camymddwyn

Ar adegau gall rhai o'n plant anghofio sut i ymddwyn yn ôl y côd moesol ac ymddwyn mewn modd annerbyniol. Yma yng Nghraig yr Wylfa ceisiwn fod yn bositif, os yw plentyn yn gwneud cangymeriad mae yna felly gyfle iddo/hi ddysgu.

Ceisiwn osgoi camymddwyn drwy:

- wobrwyo a chanmol ymddygiad da bob amser
- atgoffa'r disgyblion o reolau'r ysgol yn gyson

Os fydd camymddwyn yn digwydd yna mi fydd yn rhaid dilyn camau arbennig. Rhaid i bob disgybl ddeall os ydynt yn camymddwyn yn fwriadol eu bod felly'n gorfod wynebu'r canlyniadau .

Canlyniad camymddwyn yw:

- rhybudd llafar tawel
- enw ar y bwrdd gwyn (colli tic/stamp/pwyntiau i'w tîm)
- colli'r fraint o gario negesau/neu o helpu
- gweithio arwahan i blant y dosbarth am 5 munud
- gweithio mewn dosbarth arall
- aros i mewn i orffen gwaith
- colli 5 munud o amser chwarae
- colli amser chwarae
- cael ei hanfon at y Pennaeth

Mewn achosion difrifol neu gamymddwyn rheolaidd bydd y plentyn yn cael ei anfon at y Pennaeth os oes angen.

Gall hyn arwain at:

- rhoi gwybod i rieni drwy lythyr neu alwad ffôn
- ddefnyddio'r llyfr adroddiad

Camymddwyn Difrifol

Mewn achos o gamymddwyn difrifol, megis trais, bwlio, dig wyleidd-dra, herio athro/awes neu oruchwylwyr (gan gynnwys gyrrwr bws/tacsi) gall yr holl gamau a nodwyd uchod gael eu hepgor ac anfonir y plentyn yn syth at y Pennaeth.

Gall y Pennaeth wedyn gymeryd y camau canlynol:

- rhybudd llafar
- cysylltu'n syth gyda'r rhieni i drafod y sefyllfa
- defnyddio'r llyfr adroddiad
- gwaharddiad am gamymddwyn gwbl annerbyniol

Os ydych fel rhiant yn derbyn hysbysiad o'r fath golyga hyn bod eich plentyn wedi camymddwyn yn gyson er y rhybuddion. Mewn achos o gamymddwyn difrifol daw'r gwaharddiad dros dro i rym yn syth.

7 Ymddygiad ar yr Iard

Ar yr iard, rydym yn defnyddio'r rheolau, gwobrwyon a'r sancsiynau canlynol:

- cadw o fewn ffiniau'r iard bob amser
- bod yn gyfeillgar a chwarae'n ddiogel
- mynd i'r llinellau yn syth wedi i'r athrawon eich galw
- aros yn llonydd ac yn dawel mewn llinellau

Goruchwyliaeth iard amser chwarae a chinio

Yn ystod y cyfnodau hyn bydd y plant yn cael eu goruchwylio gan oedolion eraill yn ogystal ag athrawon sef gweinyddesau a staff cinio.

Disgwylir i'r disgyblion ymddwyn yn yr un modd ac a wnânt gyda'r athrawon gyda staff ategol yn yr ysgol. Byddant yn derbyn y gwobrwyon a'r sancsiynau canlynol:

Gwobrwyon amser cinio:

- canmoliaeth gan yr athro/awes/oedolyn sydd ar ddyletswydd
- canmoliaeth gan yr athro/awes ddosbarth yn eu llinellau

Sancsiynau amser chwarae/cinio:

- rhybudd/cerydd llafar
- cerdded gyda'r athro neu sefyll yn erbyn y wal am gyfnod
- colli pwyntiau i'w tîm
- anfon tu allan i swyddfa'r Pennaeth
- colli amser chwarae
- mewn achos o gamymddwyn difrifol yn ystod amser cinio mae'r hawl gan yr ysgol i anfon y plentyn adref

8 DIM BWLIO

Beth yw bwlio?

Gall Bwlio gymryd sawl ffurf

- Gall Bwlio fod yn gorfforol pan fo plentyn yn cael ei daro'n fwriadol.
- Gall Bwlio fod yn eiriol – lle mae plant yn galw enwau, yn bychanu a gwawdio plant eraill.

Yn gyffredinol diffiniad o fwlio yw "gweithred sy'n digwydd mwy nag unwaith."
Cofiwch: bygwth a chodi ofn mae'r Bwli yn ceisio ei wneud.

Safbwynt yr Ysgol

Os digwydd bwlio, yna bydd yr ysgol yn ymateb fel hyn:

Cam 1: Delio a'r broblem yn gyflym, yn deg ac yn gadarn.
Cam 2: Cael gwybod y ffeithiau i gyd
Cam 3: Sgwrsio gyda'r plant – o'r ddwy ochr- darparu cwnsela yn ôl yr angen
Cam 4: Cosbi yn yr ysgol pan fo angen
Cam 5: Cysylltu â'r rhieni
Cam 6: Os bydd y mater yn un difrifol, yna byddwn yn ystyried cosbau gwaharddiad

Safbwynt y Rhieni

Os ydych yn poeni fod eich plentyn yn dioddef bwlio, yna cysylltwch â'r ysgol yn syth. Os ddigwydd y bwlio tu allan i oriau ysgol, mae'n fater i'r heddlu.
Sut y gallwch helpu?

- siaradwch â'ch plentyn
- peidiwch â chytuno i gadw'r peth yn gyfrinach
- trefnwch i gyfarfod eich plentyn os yw'r bwlio yn digwydd ar y ffordd i'r ysgol neu ar y ffordd adref
- cofiwch – efallai mae eich plentyn chi yw'r bwli. Bydd angen cyngor a chymorth arno

Neges i blant:

- RHANNWCH y broblem ewch i ddweud yn syth wrth athro neu athrawes, rhieni neu ffrind
- NODWCH y broblem os teimlwch na allwch sôn am ech profiad
- COFIWCH bydd yr ysgol yn ymchwilio i honiadau o fwlio ond gwnant hynny mewn ffordd sensitif. Ein nôd yw cael gwared ar fwlio
- DILEWCH fwlio trwy ddweud am bob digwyddiad rydych yn dyst iddynt
- CEFNOGWCH y rhai sy'n cael ei bwlio
- GWERTHFAWROGWCH yr amrywiaeth o blant sydd ar gael yn yr ysgol- a PHEIDIWCH a gadael i wahaniaethau arwain at ymddygiad anystyriol

COFIER Mae'n weithred ddewr hysbysu ynghylch bwlio
NID yw bwlio yn ran o'r profiad o dyfu i fyny

9 Presenoldeb Plant

Er mwyn sicrhau rhediad hawdd i systemau'r ysgol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb, mae'n hynod bwysig ein bod yn derbyn gwybodaeth gennych fel rhieni sy'n nodi'r rheswm dros absenoldeb eich plant.

Bydd pob absenoldeb heb ei esbonio yn cael ei gyfrif fel triwantiaeth – yn ôl arweiniad y llywodraeth. Mae'n rhaid i ni fel ysgol, adrodd yn flynyddol ar absenoldebau plant, gan gynnwys manylion am y rhesymau pam mae plant yn colli ysgol.

Eich cyfrifoldeb chwi fel rhieni yw gadael inni wybod y rheswm dros yr absenoldeb – nid y plentyn, neu frawd neu chwaer.

Yn yr un ffordd, eich cyfrifoldeb chwi yw sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8.55 yb, ond nid cyn 8.45yb onibau eu bod yn mynychu'r clwb brecwast.

Os yw eich plentyn yn absennol dylid rhoi gwybod i'r ysgol fel a ganlyn:

- ysgrifennu llythyr neu ffonio'r ysgol cyn 10 o'r gloch ar ddiwrnod cyntaf yr absenoldeb mewn achos o salwch
- rhoi gwybod i'r ysgol o flaen llaw mewn achos o absenoldeb arall, ee, apwyntiad deintydd/meddyg, gwyliau ayyb
- ysgrifennu llythyr/anfon nodyn ar y diwrnod cyntaf mae o neu hi yn dychwelyd i'r ysgol

Fel mater o gonsýrn am eich plentyn, byddem yn gwerthfawrogi pe byddech yn gadael inni wybod os yw yn wirioneddol sâl neu wedi ei gymeryd i'r ysbyty

Cwestiwn neu ddau

1. Ydi hi'n iawn i mi fynd â'n plentyn i weld meddyg neu'r deintydd yn ystod oriau'r ysgol?

   Ydy, ond dylai'r athro/awes ddosbarth wybod hynny ymlaen llaw.
   Os bydd rhaid i'ch plentyn adael yr ysgol rhwng 9.00 yb a 3.15 yp i gadw apwyntiad yna bydd rhaid i chi ddod i'w nôl. Ni chaniateir i blant adael yr ysgol ar ben eu hunain ar unrhyw amod. Bydd angen llythyr i esbonio'r absenoldeb.

2. A gaiff plant fynd ar wyliau teuluol yn ystod tymor yr ysgol?

   Cânt – ond mae'n well o ran addysg y plentyn i chi geisio trefnu eich gwyliau yn ystod gwyliau arferol yr ysgol. Mewn pentref fel Borth, sy'n dibynnu llawer ar dymor y twristiaid nid yw hyn yn bosibl i'w drefnu.

   Pan fyddwch yn trefnu eich gwyliau rhaid llenwi'r ffurflen 'gwyliau' briodol, sydd ar gael gan y Pennaeth. Dylech ddychwelyd hon i athro/athrawes ddosbarth eich plentyn hynaf – cyn mynd ar eich gwyliau.

   <u>Dim ond 10 diwrnod mewn blwyddyn ysgol a ganiateir ar gyfer gwyliau wedi'i awdurdodi- mae diwrnodau ychwanegol yn absenodeb heb ei awdurdodi.</u>

3. Beth sy'n digwydd i'r plentyn sydd yn colli ysgol/yn hwyr yn cyrraedd yr ysgol, yn rheolaidd?

   Bydd hyn yn cael ei gofnodi yng nghofrestri'r ysgol ac mae'n ddyletswydd ar y Pennaeth i basio'r wybodaeth ymlaen i'r Adran Addysg. Gwneir trefniadau wedyn i'r Swyddog Lles ymweld â'r cartref.

Er mwyn sicrhau rhediad hawdd i systemau'r ysgol i fonitro presenoldeb a phrydlondeb, mae'n hynod bwysig ein bod yn derbyn gwybodaeth gennych fel rhieni sy'n nodi'r rheswm dros absenoldeb eich plant.

Bydd pob absenoldeb heb ei esbonio yn cael ei gyfrif fel triwantiaeth – yn ôl arweiniad y llywodraeth. Mae'n rhaid i ni fel ysgol, adrodd yn flynyddol ar absenoldebau plant, gan gynnwys manylion am y rhesymau pam mae plant yn colli ysgol.

Eich cyfrifoldeb chwi fel rhieni yw gadael inni wybod y rheswm dros yr absenoldeb – <u>nid y plentyn</u>. Yn yr un ffordd, eich cyfrifoldeb chwi yw sicrhau fod eich plentyn yn cyrraedd yr ysgol erbyn 8.55 am.

10 Crynhoi

Os oes gennych unrhyw broblemau neu gwestiynau eraill, cofiwch gysylltu â'r ysgol. Mae Ysgol Craig yr Wylfa yn gymuned hapus a gofalgar, 'rydym yn ymfalchio yn hyn.

Dros y blynyddoedd ychydig iawn o blant sydd wedi colli ysgol yn ddi-reswm. Mae canran presenoldeb y plant yn gyson uchel, ac ymfalchïwn yn hyn. Ond mae lle i wella!

Diolch ichi i gyd am ein helpu i gadw safonau da drwy'r ysgol. Ceisiwn y cyfleoedd gorau i'ch plant ac mae gweithio gyda'n gilydd fel partneriaid yn allweddol i'r llwyddiant hwnnw.

Hefin Jones
(Pennaeth)

Peter Leggett
(Pennaeth Cynorthwyol)